# Bwletin y Farchnad HCC

Hydref 2021

**Yn ddiweddar, rhyddhaodd Defra ddata dros dro ar gyfer Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth y DU ym mis Mehefin 2021 a ddangosodd fod cyfanswm nifer y gwartheg a defaid wedi gostwng yn ystod y 12 mis diwethaf, tra bod moch wedi cofnodi cynnydd o 4%. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn ymchwilio ymhellach i'r data.**

## Gwartheg

Buches bridio gwartheg y DU:
**3.3 miliwn pen**
**- 0.9%**
**o'r naill flwyddyn i'r llall**


Mae data dros dro a ryddhawyd yn ddiweddar gan Defra wedi datgelu bod cyfanswm nifer y gwartheg a'r lloi yn y DU ar 01 Mehefin 2021 yn 9.53 miliwn pen. Mae hyn yn ostyngiad o 0.9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae'n parhau gyda'r duedd ar i lawr a welwyd ym muches y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y fuches fridio (cig eidion a llaeth) yn cyfrif am dros draean o gyfanswm y gwartheg, ond wedi lleihau 0.9% i 3.3 miliwn pen. Y sbardun ar gyfer hyn oedd gostyngiad o 1.7% ym maint y fuches sugno i 1.5 miliwn pen, tra bod y fuches fridio llaeth wedi gweld gostyngiad llai (i lawr 0.3%) i 1.9 miliwn pen. Diffinnir buwch fridio yng nghyd-destun y datganiad hwn fel buwch sydd wedi lloia.

Gostyngodd cyfanswm nifer y gwartheg benywaidd 2 flwydd neu fwy o 2.2% ar y flwyddyn, tra bod y rhai rhwng 1 a 2 flwydd oed wedi cynyddu 0.4% ar y flwyddyn. Fodd bynnag, y gostyngiad a welwyd mewn menywod cig eidion yn y categorïau hyn oedd y prif sbardunau y tu ôl i'r dirywiad. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y gwartheg gwrywaidd o bob categori oedran – ar wahân i'r rhai dan 12 mis oed. Ynghyd â'r niferoedd o fenywod cig eidion, byddai hyn yn awgrymu nad yw cynhyrchu cig eidion domestig yn debygol o gynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn nesaf, ond gall cynnydd yn nifer y gwartheg iau wella cyflenwadau yn ystod y 12-24 mis nesaf.

## Defaid

Mae ffigurau dros dro Defra yn dangos mai'r nifer o ddefaid ac ŵyn yn y DU oedd 32.4 miliwn pen ar 01 Mehefin 2021. Mae hyn yn ostyngiad o 0.9% ar y flwyddyn, a'r bedwaredd flwyddyn yn olynol lle mae'r niferoedd wedi bod yn is na lefelau blwyddyn yn gynharach. Mae maint presennol y ddiadell yn debyg i'r hyn a gofnodwyd yn ystod 2012, gyda'r gostyngiad diweddar yn cael ei sbarduno gan ostyngiadau a welwyd ym mhob categori o ddefaid bron. Gostyngodd nifer y mamogiaid bridio o 0.6% ar y flwyddyn i 15.3 miliwn pen, gyda'r rhai a fwriadwyd i fridio am y tro cyntaf yn gostwng 0.2% yn unig ar y flwyddyn ac yn cyfrif am bron i 17% o'r ddiadell fridio.

Yn dilyn y gostyngiad ym maint y ddiadell fridio,roedd nifer yr ŵyn ar lawr gwlad (o dan flwydd oed) yn y DU yn 16.2 miliwn pen. Mae hyn yn ostyngiad o 1.6% o'i gymharu â'r 16.5 miliwn o ŵyn a gofnodwyd ar 01 Mehefin 2020, a gostyngiad pellach o 2.7% ar 2019. Mae cnwd cig oen presennol 2021-22 yn faint tebyg i'r hyn a gofnodwyd yn ôl yn 2011/2012, a byddai'n awgrymu bod llai o ŵyn ar gael i farchnad y DU.





Mae'r ffigurau hyn yn rhai dros dro, fodd bynnag, ac ni fydd canlyniadau llawn y DU (a Chymru'n unig) yn cael eu cyhoeddi tan fis Rhagfyr 2021. Ar hyn o bryd mae trwybwn cig oen mewn lladd-dai yn y DU rhwng mis Mai a mis Medi 2021 13.2% yn is na'r cyfnod cyfatebol yn 2020. Byddai hyn yn awgrymu bod lefelau trwybwn yn is na'r hyn a ddisgwylid, o ystyried maint y cnwd cig oen.

## Moch

Buches bridio moch y DU:
**497,000 pen**
**- 0.9%**
**o'r naill flwyddyn i'r llall**

Ar 01 Mehefin 2021, cyfanswm nifer y moch yn y DU oedd 5.3 miliwn pen – cynnydd o 4.4% (neu 220,000 pen) ar y flwyddyn flaenorol. Felly, mae nifer y moch wedi aros yn uwch na'r marc 5 miliwn am bedwaredd flwyddyn yn olynol. Er bod cynnydd ym maint cyffredinol y fuches genedlaethol, gostyngodd nifer y moch bridio bron i 1% o'i flwyddyn i 497,000 pen. Y categori a sbardunodd y cynnydd yn y DU oedd cynnydd o bron i 5% yn nifer y moch sy'n pesgi a oedd yn bresennol ar lawr gwlad.





Yn ogystal, cynhelir sesiynau rhithiol ar **nos Fercher 10 Tachwedd** ar themâu'n cynnwys addysg, masnach a phrosiectau perthnasol.


Additional sessions will be held virtually on **Wednesday 10 November** covering topics such as education, trade and relevant projects.

Ewch i'n gwefan i gofrestru: hybucig.cymru

Register on our website: meatpromotion.wales

**Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr**





**Cynnyrch cig eidion yn y DU**


## GWARTHEG

Roedd pris cyfartalog gwartheg dethol y farchnad yng Nghymru a Lloegr yn 237.1c/kg am yr wythnos a ddaeth i ben ar 23 Hydref – i fyny 3.5c ar yr wythnos. Mae'r pris presennol yn parhau i fod yn gryf o'i gymharu â chyfartaleddau hanesyddol, ac mae 36c yn uwch na lefelau blwyddyn gynharach, a bron i 49c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 188.3c/kg). Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 23 Hydref, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 408.4c/kg (i fyny 0.7c ar yr wythnos) sydd 44.9c yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 405.7c/kg (+3.0c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 397.2c/kg (-0.5c), a gwartheg difa ar 262.1c/kg (-3.0c).

Roedd cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU yn 223,600 pen ar gyfer mis Medi – i lawr 6.8% ar fis Medi 2020, a 9.6% yn is na'r mis cyfatebol yn 2019. Roedd trwybwn gwartheg dethol i lawr 5.3% ar y flwyddyn, sef 160,600 pen (y trwybwn misol isaf ond un a gofnodwyd hyd yma eleni). Nododd pob categori ostyngiad blwyddyn ar flwyddyn mewn trwybwn, gyda bustych i lawr 6.5%, heffrod i lawr 3.6%, a teirw ifanc i lawr 5.6%. Roedd trwybwn gwartheg llawn-dwf wedi gostwng 10.8% ar y flwyddyn i 56,300 pen. O ganlyniad i'r cyflenwad tynn, roedd cyfanswm y cig eidion ar gyfer mis Medi wedi gostwng 5.5% ar y flwyddyn. O edrych ar 9 mis cyntaf eleni, roedd cyfanswm trwybwn gwartheg wedi gostwng 5.1% ar y flwyddyn, tra bod cynhyrchiant wedi gostwng 3.9%.

**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**





**Cynnyrch cig defaid yn y DU**


## DEFAID

Cofnododd Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) pwysau byw cig oen ar gyfartaledd mewn marchnadoedd arwerthiannau yng Nghymru gynnydd mewn prisiau am dair wythnos yn olynol, ond gostyngodd 0.5c yn ystod yr wythnos ddiweddaraf a ddaeth i ben ar 23 Hydref a 228.9c/kg. Yn gyffredinol, mae prisiau wedi bod yn tueddu'n nes at lefelau tymhorol, ond mae'r pris presennol yn parhau bron 42c yn uwch na lefelau blwyddyn yn gynharach, a 64c yn uwch na'r cyfartaledd o 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 164.9c/kg). Roedd prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru ar gyfartaledd yn £57.40/pen – i fyny 50c ar yr wythnos flaenorol, a £4.10 yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain Fawr yn 529.9c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 23 Hydref (+88.8c ar y flwyddyn).

Cyfanswm trwybwn defaid yn lladd-dai'r DU oedd 1.12 miliwn pen ar gyfer mis Medi – i lawr 16.3% ar y flwyddyn. O fewn hyn, roedd trwybwn ŵyn i lawr 16.4% ar y flwyddyn, sef 1.0 miliwn pen – sydd hefyd i lawr 14.9% ar 2019. Er gwaethaf y gostyngiad mewn trwybwn, roedd pwysau cyfartalog carcasau ŵyn wedi cynyddu 0.5kg ar y flwyddyn i 19.8kg. Roedd niferoedd trwybwn y mamogiaid a'r hyrddod hefyd wedi gostwng 14.9% ar y flwyddyn i 108,100 pen. Gostyngodd cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd yn ystod mis Medi o 14.5% ar y flwyddyn i 23,000 tunnell. O edrych ar 9 mis cyntaf eleni, roedd cyfanswm trwybwn defaid wedi gostwng 12.5% ar y flwyddyn, tra bod y cynhyrchiant wedi gostwng 11.4%.

**Pris cyfartalog yr holl foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**




**Cynnyrch porc yn y DU**

## MOCH

Mae prisiau moch wedi bod yn profi rhywfaint o gynnwrf yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac wedi cofnodi gostyngiad mewn prisiau o wythnos i wythnos am y rhan fwyaf o wythnosau ers diwedd Gorffennaf. Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 16 Medi, gostyngodd Pris Mochyn Cyfan (APP) manyleb yr UE o 3.0c ar yr wythnos flaenorol i 153.5c/kg. Mae'r pris presennol 8.1c yn is na lefelau blwyddyn yn gynharach, ac 1.9c yn is na'r cyfartaledd o 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 155.3p/kg). Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod prinder llafur mewn lladd-dai lleol yn rhoi pwysau ar y sector moch, ynghyd â'r gostyngiad parhaus mewn allforion porc o'r UE gan ychwanegu at y cyfanswm ar y farchnad ddomestig.

Cyfanswm y trwybwn moch yn lladd-dai'r DU oedd 816,900 pen ar gyfer mis Medi – gostyngiad o 12.4% ar y flwyddyn, a'r trwybwn misol isaf a gofnodwyd ers mis Mai 2020. Gostyngodd trwybwn moch heb fagu o 12.9% ar y flwyddyn i 792,000 pen, tra bod eu pwysau carcas cyfartalog yn 1.7kg yn drymach ar y flwyddyn, sef 88.8kg. Roedd trwybwn hwch a baedd wedi cynyddu bron i 9.5% ar lefelau blwyddyn yn gynharach i 24,900 pen. O ganlyniad i'r trwybwn is, roedd cynhyrchiant porc wedi gostwng 10.4% ar y flwyddyn i 74,000 tunnell yn ystod mis Medi, gan ddod â'r cyfanswm a gynhyrchwyd hyd yma eleni i sefyll 4.6% yn uwch na'r lefelau blwyddyn yn gynharach.